Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Tachwedd 8, 2016 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, John Hughes, Gethin Williams, Janet Edwards, Eirlys Roberts a Gareth Ellis. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Llinos Williams.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gethin Williams yn datgan diddordeb ynglyn ag Eitem 5.e.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 11, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 11, 2016

Nid oedd materion yn codi.

5. Materion Ariannol

a. Bil (13/10/2016) am £70 oddi wrth Glyn Rees & Son i ail agor bedd i gladdu gweddillion.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Derbyniwyd (13/10/2016) siec am £175 (claddu gweddillion) oddi wrth Glyn Rees & Son. Taliad at David Morgan Griffiths.

c. Llythyr (20/10/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd swyddogion o'r sefydliad yn cyfarfod gyda chynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn Tachwedd i drafod nifer fawr o gwynion derbyniwyd am y broses archwilio allanol a gynhaliwyd gan BDO.

ch. Llythyr (Hydref 2016) oddi wrth Gwasanaeth Trethi, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mai Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi ailbrisio Gwerth Ardrethol eiddo busnesau yng Nghymru. Mae'r wybodaeth i'w gael ar www.gov.uk/voa/revaluation

Gwerth ardrethol Toiledau Bontddu presennol yw £570.
Bydd y Gwerth ardrethol yn 2017 yn £740

d. Balans yn y banc ar 29 Hydref, 2016: £7,754.78

dd. Bil (04/11/2016) am £48 oddi wrth Cambrian News Ltd i hysbysu yn Y Dydd am yr angen am gontractwr profiadol i Gynnal a Chadw'r Fynwent.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Bil (1/11//2016) am £546.00 oddi wrth Mr J. Ll. Williams am glirio llwybrau cyhoeddus yn ardal Bontddu.

Penderfynwyd talu'r bil.

f. Bil (8/11/2016) oddi wrth Janet Edwards am daliad i lanhau a gofalu am doiledau cyhoeddus Bontddu am y cyfnod Gorffennaf, Awst a Medi: £225.00

Penderfynwyd talu'r bil.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/65/14P. Mae'r Awdurdod yn caniatau Trosi ac ymestyn allandy i ffurfio llety gwyliau i'w osod a gosod tanc septig, a symud carafan statig oddi ar y safle. Bryn Du, Llanelltyd.

ii. Cais NP5/65/133E. Mae'r Awdurdod yn caniatau Cais i ryddhau Amodau Rhif 3, 4, 5 a 10 o Ganiatâd Cynllunio NP5/65/133D dyddiedig 22/12/2015. Ysgol Gynradd Llanelltyd, Llanelltyd.

b. Derbyniwyd (17/10/2016) dogfen Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri oddi wrth Elfed ap Gomer. Anfonwyd y ddogfen ymlaen i'r aelodau'r Cyngor.

c. Llythyr (Hydref 19, 2016) yn gofyn ini ddychwelyd yn ôl y mapiau oedd yn ymwneud ag Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri - Asesiad Mannau Agored.

Anfonwyd y mapiau yn ôl i'r Parc.

ch. Cais cynllunio NP5/65/343. Adnewydd tŷ. Heddwch, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (10/10/2016) oddi wrth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd. Mae angen cwblhau holiadur sy'n gofyn am wybodaeth am bobl neu lefydd sy'n adnabyddus am gysgu ar y stryd.

Penderfynwyd rhoi gwybod iddynt nid oes bobl yn cysgu ar y stryd.

b. Derbyniwyd (17/10/2015) adroddiad ar Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru oddi wrth Un Llais Cymru.

c. Llythyr (25/10/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd rhoi eu barn ar blismona yng ngogledd Cymru. Bydd y cyfarfod yn Canolfan Hamdden Penllyn, Bala ar Rhagfyr 7 am 6.30yh.

ch. Llythyr (02/11/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Pafiliwn Criced Dolgellau ar Tachwedd 23, 2016 am 7.00yh. Bydd Swyddogion iechyd yn bresennol yn rhoi gwybodaeth ar iechyd yn gogledd Cymru. Amgau mae Agenda, Cofnodion y pwyllgor chynhaliwyd ar Medi 26, 2016, a Chofnodion Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol cynhaliwyd yn Llanfair y Muallt ar Medi 16, 2016.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

10. Materion Brys

a. Derbyniwyd (26/10/2016) cais gan breswylydd Bontddu yn gofyn os mae'n bosib symud y lloches bws sydd wrth Trem y Gader i leoliad wrth Bryn Teg, Bontddu.

Penderfynwyd gwneud dim ynglyn a'r mater.